Datganiad hygyrchedd gwefan http://Llanddyfnan.org

Mae'r datganiad hygyrchedd hwn yn berthnasol i wefan Cyngor Cymuned Llanddyfnan http://Llanddyfnan.org

Cyngor Cymuned Llanddyfnan sy'n gyfrifol am y wefan.

Y Clerc fydd yn darparu'r holl gynnwys ar ran y cyngor cymuned.

Rydym yn dymuno cael gymaint â phosibl o bobl i allu defnyddio'r wefan hon. Golyga hyn er enghraifft eich bod yn gallu:

- Gwe-lywio'r rhan fwyaf o'r wefan gyda trwy ddefnyddio eich allweddell yn unig
- Gwe-lywio'r rhan fwyaf o'r wefan trwy ddefnyddio meddalwedd adnabod llais
- Mae'r safle yn arddangos yn gywir o fewn y porwyr presennol a thrwy ddefnyddio codau HTML/CSS sy'n cydymffurfio â'r safonau bydd unrhyw borwyr eraill yn y dyfodol yn ei arddanogs yn gywir
- I wneud maint y testun a welir ar y wefan hon yn fwy neu'n llai – pwyswch yr allwedd Ctrl ac yna'r "+" neu'r "-" (neu sgroliwch olwyn y lygoden) i newid y maint.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnwys y wefan mor syml â phosibl i'w ddeall.

Er ein bod yn ceisio cadw at y canllawiau priodol ar gyfer hygyrchedd a defnyddioldeb, nid yw hi'n bosibl bob tro i wneud hynny trwy bob rhan o'r wefan.

Mae AbilityNet yn darparu cyngor ar sut i'w gwneud hi'n haws i ddefnyddio eich dyfais os oes gennych anabledd: advice on making your device easier to use

Yn ogystal, mae'n bosibl y gallwn gyflwyno Widgets i wneud y Wefan yn fwy hygyrch ar y wefan.

Mae hyn yn galluogi defnyddwyr i newid rhai agweddau o'r wefan i'w gwneud yn haws i gael mynediad. Mae hyn yn caniatau inni i wella ei chydymffurfiaeth gyda Chanllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We (WCAG 2.1).

Mae'r wefan hon yn ddwyieithog ac yn cynnwys testun Cymraeg a Saesneg.

Pa mor hygyrch yw'r wefan hon

Gwyddom nad yw rhai rhannau o'r wefan hon yn gwbl hygyrch:

- Mae peth testun ar rhai o'r tudalennu gyda chyferbynnedd is na'r hyn sy'n ddelfrydol
- Nid oes modd newid uchder y llinell na'r gorfod rhwng y testun
- Nid yw rhai o'r hen ddogfennau PDF yn hygyrch i feddalwedd darllen sgrïn
- Ni allwch neidio i'r prif gynnwys wrth ddefnyddio rhaglen darllen sgrïn

Beth a allwch ei wneud os nad ydych yn gallu cael mynediad i rai rhannau o'r wefan hon

Gallwch gael mynediad at ein dogfennau mewn gwahanol fformatau, gan gynnwys:

- Argraffu'r ddogfen
- Print mawr

I wneud hyn neu i ofyn am fformat gwahanol cysylltwch gyda'r Cyngor Cymuned trwy'r wefan hon, e-bost, ffôn neu yn bersonol.

Adborth a gwybodaeth gyswllt

Os ydych angen gwybodaeth ar y wefan hon mewn fformat gwahanol megis PDF hygyrch, print mawr, fformat hawdd ei ddarllen, recordiad sain neu braille:

- Ebostiwch Llanddyfnancc@btinternet.com

Byddwn yn ystyried eich cais gan ymateb i chi o fewn 10 diwrnod.

Rhoi gwybod am broblemau hygyrchedd gyda'r wefan hon

Rydym bob amser yn ceisio gwella hygyrchedd y wefan hon. Os cewch broblemau nad ydynt wedi eu rhestru ar y dudalen hon neu os ydych o'r farn nad ydym yn cyfarfod y gofynion o ran hygyrchedd, cysylltwch gyda chlerc y cyngor; Llanddyfnancc@btinternet.com

Y weithdrefn orfodi

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) sy'n gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Gyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Ffonau Symudol) (Rhif 2) 2018 (y 'rheoliadau hygyrchedd'). Os nad ydych yn fodlon ar sut yr ydym wedi ymateb i'ch cwyn cysylltwch gyda'r Gwasanaeth Cynghori a Chefnogi Cydraddoldeb (EHRC).

Gwybodaeth dechnegol am hygyrchedd y wefan hon

Mae Cyngor Cymuned Llanddyfnan wedi ymroi i wneud ei wefan yn hygyrch yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Gyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Ffonau Symudol) (Rhif 2) 2018.

Statws cydymffurfio

Mae'r wefan hon yn cydymffurfio'n rhannol gyda fersiwn 2.1 o Ganllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwefannau Web Content Accessibility Guidelines version 2.1 safon AA, oherwydd problemau gyda chyferbynnedd testun ar rai o'r tudalennau, dim testun amrywiol ar gyfer rhai hysbysiadau mewn fformat JPG a PDFiau a ddefnyddir i arddangos cofnodion fel a grybwyllir isod.

Cynnwys nad yw'n hygyrch

Nid yw'r cynnwys a restrir isod yn hygyrch am y rhesymau canlynol.

Diffyg cydymffurfio gyda'r rheoliadau hygyrchedd

Nid yw rhai delweddau ar gael mewn ffurf testun ac felly mae pobl sy'n defnyddio meddalwedd darllen sgrïn yn methu cael gafael ar yr wybodaeth. Mae hyn yn groes i faen prawf llwyddiant 1.1.1 CHCG (WCAG) 2.1 (cynnwys di-destun). Rydym yn bwriadu ychwanegu testun ar gyfer pob delwedd erbyn mis Rhagfyr 2021. Pan fyddwn yn cyhoeddi testun newydd byddwn yn sicrhau bod ein delweddau yn cyfarfod y safonau hygyrchedd.

Mae rhai dolenni PDF yn agor mewn tudalen newydd. Mae'n bosibl na fydd pobl sy'n defnyddio meddalwedd darllen sgrïn yn sylwi bod tab newydd wedi ei agor. Mae hyn yn groes i faen prawf llwyddiant 1.1.1 CHCG 2.1 (cynnwys di-destun). Rhoddir rhybudd ar y dudalen cofnodion i egluro hyn erbyn mis Rhagfyr 2021.

Mae rhai hysbysiadau ar y wefan wedi ei postio fel delweddau JPG. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i bobl sy'n defnyddio meddalwedd darllen sgrïn i gael gafael ar yr wybodaeth. Mae hyn yn groes i faen prawf llwyddiant 1.4.9 CHCG 2.1 (delweddau testun). Bydd y delweddau presennol yn cael eu hadolygu a'u dileu os nad oes angen yr hysbysiad bellach. Bwriadwn gyflwyno testun eglurhaol i bob hysbysiad JPC o hyn ymlaen.

Mae'n bosibl bod teitl rhai o'r PDFiau yn anodd i'w darllen. Mae hyn yn groes i faen prawf llwyddiant 1.1.1 CHCG 2.1 (cynnwys di-destun). Bydd y rhain yn cael eu hadolygu erbyn mis Rhagfyr 2022 a byddwn yn sicrhau bod unrhyw deitlau o hynny ymlaen yn glir.

Baich anghymesur

Gwe-lywio a chael gafael ar wybodaeth

Nid oes modd osgoi'r cynnwys a ail-adroddir ar frig y dudalen (er enghraifft opsiwn i 'osgoi y prif gynnwys).

Nid yw'n bosibl bob tro i newid gogwydd y teclyn o'r llorweddol i'r fertigol heb ei gwneud hi'n anoddach i weld y cynnwys.

Nid yw'n bosibl i'r defnyddiwr newid maint y testun heb i beth o'r cynnwys orgyffwrdd.

Teclynau a thrafodiadau rhyngweithiol

Rydym wedi asesu'r gost o roi sylw i'r problemau gyda gwe-lywio a chael gafael ar wybodaeth a chyda theclynnau a thrafodiadau rhyngweithiol. Rydym o'r farn y byddai gwneud hynny ar hyn o bryd yn faich anghymesur fel â ddiffinnir o fewn y rheoliadau hygyrchedd. Byddwn yn asesu'r sefyllfa eto erbyn 2023.

Cynnwys nad yw'n rhan o'r rheoliadau hygyrchedd

PDFiau a dogfennau eraill

Mae rhai o'n dogfennau PDF a Word yn hanfodol ar gyfer darparu ein gwasanaethau. Er enghraifft mae gennym PDFiau gyda gwybodaeth am Agendau a Chofnodion

Nid yw'r rheoliadau hygyrchedd yn ei gwneud hi'n ofynnol ein bod yn rhoi sylw i PDFiau neu ddogfennau eraill a gyhoeddwyd cyn mis Medi 2018 os nad ydynt yn hanfodol i ddarparu ein gwasanaethau. Er enghraifft nid ydym yn bwriadu rhoi sylw i gofnodion a gyhoeddwyd ar PDF cyn y dyddiad hwn.

https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2018/952/regulation/4/made

Bydd unrhyw ddogfennau PDF neu Word newydd a gyhoeddir gennym yn cyfarfod y safonau hygyrchedd.

Beth yr ydym yn ei wneud i wella hygyrchedd

Byddwn yn gwella y dull y bydd cofnodion ac agendau yn cael eu cyhoeddi ar y wefan fel bod pobl sy'n defnyddio rhaglen darllen sgrïn yn gallu cael mynediad at yr wybodaeth.

Paratoi'r datganiad hygyrchedd hwn

Paratowyd y datganiad hwn ar 04/4/2021 ac fei'i hadolygwyd ddiwethaf ar 4/04/2021

Rhoddwyd prawf ar y wefan hon ddiwethaf ar 01/4/2021 gan Neil Summers

Cafodd pob tudalen ar y wefan ei harchwilio.